

TRIBIWNLYS PRISIO CYMRU

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2018-2019

Tabl Cynnwys

Adrannau	Tudalen
Rhagair gan Lywydd Tribiwnlys Prisio Cymru – Carol Cobert	3
Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr – Andrew Shipsides	4
1. Swyddogaeth a sgôp y Tribiwnlys	5
2. Llwyth gwaith, apeliadau pellach a chwynion	6
3. Aelodaeth a hyfforddiant	8
4. Y Cyngor Llywodraethu	9
5. Staffio	10
6. Cyllid	11
7. Cynllun pum mlynedd y tribiwnlys	12

Datganiadau wedi'u llofnodi gan y Prif Weithredwr (fel sy'n ofynnol yn Nogfen Fframwaith Tribiwnlys Prisio Cymru – Llywodraeth Cymru)

Datganiad Llywodraethu	14
Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu	15

Atodiadau

A	Niferoedd y cyfarfodydd tribiwnlys a'r achosion a restrwyd	17
B	Llwyth gwaith – ffigurau cymharol y pum mlynedd ddiwethaf	18
C	Data Clirio Apeliadau 2018/2019	19
Ch	Dadansoddiad oedran a rhywedd yr aelodaeth (ar 31 Mawrth 2019)	20
D	Gwariant Tribiwnlys Prisio Cymru 2018/2019	21
Dd	Cyfanswm gwariant – ffigurau cymharol y chwe blynedd ddiwethaf	22
E	Dangosyddion Perfformiad Allweddol – tabl canlyniadau	23
F	Strwythur y Sefydliad	24
G	Y cynnydd yn erbyn cynllun pum mlynedd Tribiwnlys Prisio Cymru	25

Rhagair gan Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru

Yn dilyn yr holl newidiadau strwythurol a ddigwyddodd y llynedd, mae'n bleser gen i adrodd bod y Tribiwnlys yn cydnerthu'r newidiadau hynny yn awr a bod y staff a'r aelodau'n cydweithio i alluogi'r Tribiwnlys symud ymlaen.

Gwnaeth targed y Cyngor Llywodraethu i leihau'r aelodau arwain at leihad o 105 o aelodau i 93 yn ystod y flwyddyn. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r aelodau hynny a wasanaethodd y Tribiwnlys yn dda yn flaenorol ond a benderfynodd beidio â cheisio adnewyddu eu haelodaeth.

Rydym ni'n ceisio newid y rheoliadau ynghylch anomaledd wrth ethol Cynrychiolwyr Cenedlaethol ac ethol Llywydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ein sicrhau ni y bydd y newidiadau perthnasol yn cael eu gwneud a'u bod wedi cyflwyno'r newidiadau arfaethedig i'w cyfreithwyr. Rydym ni'n aros iddynt gael eu gweithredu.

Yn dilyn yr holl newidiadau strwythurol a gyflwynwyd rydym ni'n gweithredu ar gyllideb wedi'i lleihau dan gynllun arbed pum mlynedd. Mae dau draean y gyllideb yn cael ei wario ar gostau staffio.

Mae'r bwriad i ddatblygu ein systemau cyfrifiadurol annibynnol ein hunain ac ymddatod o'r trefniadau rhannu system gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio a'r Gwasanaeth Tribiwnlys yn Lloegr wedi symud ymlaen yn dda ac mae'r trefniadau ar y blaen i'r amserlen. Canlyniad hyn fydd arbedion ariannol sylweddol. Rwy'n ddiolchgar am yr holl waith a wnaed gan Simon Hill, Rheolwr Gweithredol, i alluogi'r newid system Technoleg Gwybodaeth ddigwydd yn llyfn. Bellach rydym ni yn ail flwyddyn y cynllun pum mlynedd.

Ar ôl cyfnod pan na chynhaliwyd hyfforddiant oherwydd yr holl faterion strwythurol ac ariannol, ailgyflwynwyd hyfforddiant ac gyfer aelodau a chadeiryddion. Gwnaeth y staff lunio cynllun hyfforddiant 'dychwelyd at yr hanfodion' ar gyfer yr aelodau. Rwy'n ddiolchgar i Carolyn Dawson am weithredu rhaglen o hyfforddiant parhaus i aelodau a chadeiryddion.

Mae awdurdodaeth y Tribiwnlys yn cwmpasu ystod o wahanol fathau o apêl. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, prin iawn fu'r achosion a gyflwynwyd fel apêl i lefel uwch. Mae hyn oherwydd rôl proffesiynol ac effeithlon aelodau a chadeiryddion yn ymdrin â gwrandawiadau tribiwnlys, yn enwedig y rhai cymhleth eu natur.

Mae'r Cyngor Llywodraethu, sy'n cynnwys tri Chynrychiolydd Cenedlaethol ac un Penodai Llywodraeth Cymru gyda mi fel y Llywydd, wedi gweithio'n gydweithredol dros y 12 mis diwethaf ac wedi parhau i hyrwyddo diwylliant llywodraethu corfforaethol cryf.

Rwyf hefyd yn hynod o ddiolchgar i'r Prif Weithredwr, y Rheolwyr Gweithredol, Clercod Tribiwnlys a'r staff cymorth am eu holl waith caled i alluogi'r Tribiwnlys barhau i ddarparu gwasanaeth effeithiol a phroffesiynol. Rwy'n hyderus bod y gwasanaeth yn parhau i gael ei gynnal a'i reoli'n dda.

Diolch i bawb sy'n ymwneud â'r gwasanaeth.

Carol Cobert

Llywydd – Tribiwnlys Prisio Cymru

Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr

Eleni gwelwyd newidiadau strwythurol y llynedd yn gwreiddio. Mae'n bleser gen i adrodd bod y staff a'r aelodau wedi setlo i'n siâp trefniadaethol newydd, ac rydym wedi cael blwyddyn gynhyrchiol. Rydym ni'n parhau i wneud arbedion ac mae gennym ni gynlluniau i gyflawni rhagor o arbedion yn y blynyddoedd nesaf.

Mae fy nyled yn fawr i bawb sydd wedi chwarae eu rhan wrth ein symud ymlaen yn llwyddiannus; y staff sydd wedi ymgynefino gyda'u patrymau gwaith a pherthnasoedd rheoli llinell newydd; ac aelodaeth y tribiwnlys sydd wedi ymateb i'r her o restrau tribiwnlys hirach ar sawl achlysur.

Er bod hon wedi bod yn flwyddyn o gydnerthu'r newidiadau a wnaed, rydym ni wedi gwneud camau breision hefyd yn symud at ein system gyfrifiadurol annibynnol ein hunain – gan dorri'r cysylltiadau ddegawdau o hyd gyda'n chwaer dribiwnlys yn Lloegr a chronfa ddata ganolog Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Llwyddasom i sicrhau'r newid hwn ar ddiwedd y flwyddyn hon – a oedd ar y blaen i'r amserlen. Byddwn yn parhau i fireinio ein systemau annibynnol ein hunain trwy gydol y flwyddyn i ddod; ond rydym wedi datgysylltu. Mae fy nghydweithiwr Simon Hill, un o'n Rheolwyr Gweithredol, wedi gwneud llawer iawn o waith yn y maes hwn, ac rwy'n ddiolchgar dros ben am bopeth mae wedi'i wneud. Rwyf hefyd yn ddiolchgar iawn i'r Rheolwr Gweithredol arall, Carolyn Dawson, wnaeth arwain ar ailgyflwyno ein rhaglenni hyfforddiant eleni gyda thîm bach o Glercod Tribiwnlys, yn ychwanegol at fframio'r rhaglen restru genedlaethol. Defnyddiwyd dull dychwelyd at yr hanfodion o ran hyfforddiant aelodau eleni, a gafodd dderbyniad da iawn.

Mae'r Tribiwnlys yn parhau i ddatblygu ei hunaniaeth a'i systemau gweithredol fel sefydliad cenedlaethol gwir unedig. Mae'r dulliau gweithio rhanbarthol blaenorol wedi mynd yn atgofion pell eisoes. Mae'r Tribiwnlys wedi cael blwyddyn gadarnhaol a llwyddiannus iawn.

Andrew Shipsides
Prif Weithredwr – Tribiwnlys Prasio Cymru

1 Swyddogaeth a sgôp y Tribiwnlys

1.1 Ni newidiodd rôl y tribiwnlys eleni. Mae'n parhau i ddarparu gwasanaeth am ddim y gall trethdalwyr y dreth gyngor a'r rhai sy'n talu ardrethi busnes yng Nghymru gyfeirio unrhyw anghydfod am agweddau o'u hatebolrwydd ato. Yn bennaf yr agweddau hyn yw:

- Prisiad yr eiddo a ddefnyddir i gyfrifo'r atebolrwydd ardrethi neu'r dreth gyngor.
- P'un ai yw unigolyn yn atebol i dalu'r dreth gyngor.
- P'un ai yw'r atebolrwydd dreth gyngor a gyfrifwyd yn gywir, gan ystyried y gwahanol ddisgowntiau, eithriadau, lleihad a phremiwmiau sy'n berthnasol dan amgylchiadau penodol.

Cyn dod â mater i sylw'r tribiwnlys mae'n rhaid i'r achwynydd fod wedi ceisio datrys y mater gyda'r corff a wnaeth y penderfyniad dechreuol yn gyntaf. Yn achos prisio eiddo, y corff hwnnw yw Asiantaeth y Swyddfa Brisio (sy'n asiantaeth weithredu Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi). Ac o ran materion atebolrwydd y dreth gyngor, y corff yw'r awdurdod llywodraeth leol a gyflwynodd y bil treth gyngor (a adnabyddir fel yr awdurdod bilio).

1.2 Ceir mathau eraill o apêl a gyfeirir at y tribiwnlys yn achlysurol, yn ymwneud â:

- Hysbysiadau cwblhau a gyflwynwyd gan awdurdodau bilio gyda'r nod o sefydlu dyddiad y penderfynir bod eiddo wedi'i gwblhau at ddibenion ardrethu a'r dreth gyngor.
- Cyflwyno cosbau gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio ar unigolion y penderfynodd Asiantaeth y Swyddfa Brisio eu bod wedi methu â darparu gwybodaeth y mae'n ofynnol iddynt ei rhoi yn gyfreithiol at ddibenion prisio eiddo.
- Asesiad ardrethi draeniad a wneir gan fwrdd draenio lleol.

1.3 Mae gan benderfyniadau'r tribiwnlys yn yr holl faterion hyn rym cyfreithiol. Gall y tribiwnlys adolygu rhai o'i benderfyniadau ardrethu a'r dreth gyngor os yw parti yn gwneud cais, dan amgylchiadau penodol cyfyngedig. Fel arall, caiff partïon anfodlon herio'r penderfyniadau yn yr uwch lysoedd. Gall prisio ar gyfer materion ardrethu gael ei ystyried yn y Tribiwnlys Haen Uwch (Siambwr Tiroedd) i ddechrau, a gall materion y dreth gyngor gael eu hysytyried yn yr Uchel Lys i ddechrau (mater yn ymwneud â'r gyfraith yn unig). Ni ellir herio prisio ar gyfer materion y dreth gyngor y tu hwnt i benderfyniad y tribiwnlys; mae penderfyniad y tribiwnlys yn derfynol yn yr achosion hynny.

2 Llwyth gwaith, apeliadau pellach a chwynion

Llwyth gwaith

- 2.1 Rhestrododd y tribiwnlys 5,816 o achosion ardrethu eleni; 1,021 o achosion prisio'r dreth gyngor a 94 o fathau eraill o apêl (materion atebolrwydd y dreth gyngor yn bennaf, yn cynnwys apeliadau'r cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor). Rhwir manylion nifer y cyfarfodydd tribiwnlys a'r achosion a restrwyd yn Atodiad A.
- 2.2 Cafodd 5,127 o apeliadau ardrethu eu clirio; 1,300 apêl prisio'r dreth gyngor; a 80 o apeliadau eraill. Rhwir manylion yn Atodiad B, sy'n cyflwyno ffigurau cymharol yn erbyn y pedair blynedd ddiwethaf, ac Atodiad C sy'n darparu manylion am ganlyniadau eleni.
- 2.3 O'r 934 penderfyniad ardrethu a gyhoeddwyd, cyflwynwyd ceisiadau i adolygu'r penderfyniad yn achos 11 ohonynt. Bu 10 o'r rhain yn llwyddiannus, yn bennaf ar y sail bod yr apelyddion wedi methu ag ymddangos yn y gwrandawliadau a drefnwyd oherwydd amgylchiadau y tu hwn i'w rheolaeth. Cafodd y penderfyniadau yn yr achosion hyn eu rhoi i'r naill ochr, a chafodd yr apeliadau eu gwrandawlo eto. O'r 466 o benderfyniadau prisio'r dreth gyngor, cyflwynwyd ceisiadau i adolygu 8 ohonynt (gyda 7 yn llwyddiannus). Cafwyd dau gais i adolygu o ran materion atebolrwydd y dreth gyngor (bu un yn llwyddiannus).
- 2.4 Gwnaeth y tribiwnlys dan-gyflawni o ran ei Ddangosydd Perfformiad Allweddol ar gyfer rhestru apeliadau ardrethu o 3.1%. Roedd hyn oherwydd y cafwyd cyfran uwch o ohiriadau eleni, a arweiniodd at **ailrestru** achosion ar ôl yr amserlen wyth wythnos a nodir yn y diffiniad Dangosydd Perfformiad Allweddol. Cafodd yr achosion hyn eu rhestru yn unol â'r cyfnod amser gofynnol **yn wreiddiol**. Mae angen ailddiffinio'r dangosydd fel ei fod yn cyfri'r rhestru am y tro cyntaf yn unig (yn hytrach na'r rhestru am y tro cyntaf **a'r** rhestru dilynol). Fodd bynnag, bydd angen diwygio meddalwedd cyfrifiadurol Tribiwnlys Prisio Cymru er mwyn adlewyrchu hyn yn briodol. Er mwyn gweithredu'r newidiadau sy'n ofynnol y flwyddyn lawn gyntaf gyda'r diffiniad a'r cyfrif diwygiedig fydd 2020/21. Bydd y diffiniad Dangosydd Perfformiad Allweddol yn parhau yn ei le ar gyfer 2019/20. Cafodd yr holl Ddangosyddion Perfformiad Allweddol eraill eu cyflawni (gweler Atodiad E am y manylion llawn).

Apeliadau pellach

- 2.5 Cyflwynwyd apêl ynghylch un penderfyniad atebolrwydd y dreth gyngor i'r Uchel Lys. Penderfynodd y Llys nad oedd sail dechreuol yr apêl wedi'i ystyried wrth i'r panel benderfynu ar yr achos a chafodd ei anfon yn ôl at Dribiwnlys Prisio Cymru i benderfynu ar y mater a nodwyd. Mynegodd y Llys eu cymeradwyaeth ynghylch agweddau eraill penderfynu'r achos gan y tribiwnlys. Bydd y mater a anfonwyd yn ôl yn cael ei amserlennu ar gyfer gwrandawliad yn 2019/20.

2.6 Ni fu unrhyw benderfyniadau ardrethu yn ddarostyngedig i apêl i'r Uwch Dribiwnlys (Siambwr Tiroedd).

Cwynion

2.7 Cyflwynwyd un gŵyn i'r Ombwdsmon yn ystod y flwyddyn ynghylch penderfyniad tribiwnlys. Gwrthododd yr Ombwdsmon ymchwilio gan nad oedd y mater yn dod o dan faes yr Ombwdsmon.

3 Aelodaeth a hyfforddiant

Aelodaeth

- 3.1 Lleihaodd yr aelodaeth o 104 i 93 yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn unol â tharged y Cyngor Llywodraethu o 90 aelod erbyn 2020/21 (yr uchafswm statudol yw 105 ar gyfer y flwyddyn hon). Cafodd mwyafrif y lleihad eleni ei gyflawni trwy aelodau yr oedd eu cyfnod yn swydd yn darfod ar ddiwedd 31 Mawrth 2019 yn penderfynu peidio ag adnewyddu eu haelodaeth. Roedd eu penderfyniad i adael ar yr adeg yma wedi'i gytuno'n flaenorol yn ystod ymgynghori yn 2017/18.
- 3.2 Mae'r proffil oedran a rhywedd wedi parhau'r un fath yn ei hanfod ers y llynedd. Mae hyn yn ddisgwyliedig, gan nad yw'r Tribiwnlys yn recriwtio'n weithredol ar hyn o bryd. Mae'r gymhareb gwrywod i fenywod yn parhau ar 3:1. Wrth ystyried cyfnodau penodiad yr aelodaeth gyfredol, ni fydd y derbyniad arwyddocaol nesaf o aelodau newydd yn digwydd tan ddiwedd 2022/23.

Hyfforddiant

- 3.3 Ailgyflwynwyd hyfforddiant i staff ac aelodau eleni, yn dilyn moratoriwm ar wario y llynedd oherwydd yr angen i wro'r gwariant ar yr ailfodelu strwythurol. Defnyddiwyd dull 'dychwelyd ar yr hanfodion' o ran hyfforddiant aelodau – a gafodd dderbyniad da a nifer dda yn bresennol yn y sesiynau hyfforddiant.
- 3.4 Er mwyn cryfhau galluoedd cyfieithu'r Tribiwnlys yn fewnol, ac arbed ar gostau cyfieithu dogfennau gan gyfieithwyr allanol, dechreuodd dau aelod o staff astudio ar gyfer Tystysgrif Cyfieithu Proffesiynol a gynigir gan Brifysgol Aberystwyth ym mis Medi 2018. Mae'r cwrs yn un rhan amser ac yn parhau am flwyddyn academaidd gyfan. Trefnwyd rhyddhau'r swyddogion dan sylw yn briodol i fynychu'r cwrs.

4 Y Cyngor Llywodraethu

- 4.1 Mae datganiad llywodraethu'r tribiwnlys ar dudalen 14 yr adroddiad hwn.
- 4.2 Daeth Mr Anthony Clatworthy, Mr Rheinallt Evans a Mr Lyndon Moore i ddiwedd eu cyfnod yn y swydd fel Cynrychiolwyr Cenedlaethol yn ystod y flwyddyn. Yn dilyn etholiad ym mis Mai etholwyd Mr Rheinallt Evans, Mr Rhys Prytherch a Mr David Subacchi.
- 4.3 Yn unol â hynny, ar ddiwedd blwyddyn yr adroddiad hwn aelodau'r Cyngor Llywodraethu oedd:

Miss Carol Cobert	-	Llywydd
Mr Rheinallt Evans	-	Cynrychiolydd Cenedlaethol
Mr Rhys Prytherch	-	Cynrychiolydd Cenedlaethol
Mr David Subacchi	-	Cynrychiolydd Cenedlaethol
Mr Russell Lawson	-	Penodai Llywodraeth Cymru

- 4.4 Tynnodd yr etholiad sylw at anomaledd a gyflwynwyd trwy amryfusedd gan y rheoliau statudol diwygiedig a wnaed yn Rhagfyr 2017 ac yr adroddwyd amdanynt yn Adroddiad Blyneddol y llynedd. Yn flaenorol, pan oedd yr aelodau yn pleidleisio ar gyfer swyddi lluosog (megis rôl cadeiryddion, dan y rheoliadau heb eu diwygio), roedd gan aelod yr hawl i'r un nifer o bleidleisiau â nifer y swyddi i'w llenwi. Fodd bynnag, dan y rheoliadau diwygiedig, roedd gan bob aelod un bleidlais yn unig, waeth faint o swyddi a oedd i'w llenwi. O gofio bod cyfanswm yr aelodaeth wedi lleihau, ac mae'n parhau i leihau, canlyniad hyn yw bod ymgeiswyr llwyddiannus yn gorfod sicrhau cyfran fechan iawn o gyfanswm yr etholwyr (mor isel â 10% yn yr ymarfer diwethaf). O ganlyniad i hyn mae'r Cyngor Llywodraethu wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn i'r rheoliadau gael eu diwygio ymhellach, er mwyn ailgyflwyno'r un nifer o bleidleisiau i bob aelod â nifer y swyddi i'w llenwi.
- 4.5 Nodwyd anhawster arall gyda'r rheoliadau fel y maent ar hyn o bryd. Roedd hyn yn ymwneud â'r ffaith bod dau o'r ymgeiswyr llwyddiannus mewn sefyllfa bod angen adnewyddu eu haelodaeth ar ddiwedd y flwyddyn, a byddai eu swydd fel Cynrychiolydd Cenedlaethol yn dod i ben ar ddiwedd cyfnod eu penodiad cyfredol, dim ots a fyddai eu haelodaeth yn cael ei adnewyddu. Byddai hynny'n arwain at yr angen i gynnal etholiad newydd 11 mis wedi'r un ym mis Mai. Eto mae'r Cyngor Llywodraethu wedi gofyn i Lywodraeth Cymru ymdrin â'r mater hwn. Mae tîm noddi'r Tribiwnlys wedi cynghori'r Prif Weithredwr bod y materion hyn wedi eu cyflwyno i gyfreithwyr Llywodraeth Cymru, gyda'r nod o ddrafftio'r diwygiadau sy'n ofynnol. Mae'r Tribiwnlys yn disgwyl i'r newidiadau gael eu cyflwyno maes o law.
- 4.6 Bydd cyfnod Miss Carol Cobert yn swydd y Llywydd yn dod i ben yn ystod 2019/20. Bydd angen ethol llywydd maes o law.

5 Staffio

- 5.1 Dechreuodd y flwyddyn gyda 14.6 staff yn cyfateb i amser llawn. Roedd hyn yn gadael swydd cymorth gweinyddol 0.6 heb ei llenwi; fodd bynnag, cafodd rhai o'r oriau a oedd ar gael eu cymryd gan swyddog cymorth gweinyddol rhan amser yn newid i weithio ar sail amser llawn o 1 Medi. Gwnaeth y staffio barhau ar 15 swyddog amser llawn trwy gydol gweddill y flwyddyn. Dechreuodd un swyddog cymorth gweinyddol ar gyfnod mamolaeth ar ddiwedd Hydref – a gwnaeth hyn barhau tan ddiwedd blwyddyn yr adroddiad. Dechreuodd un Clerc Tribiwnlys gyfnod mamolaeth ar ddiwedd Chwefror – ac mae'r absenoldeb yn debygol o barhau tan Ionawr 2020. Ni threfnwyd unrhyw ddarpariaeth ychwanegol i gwmpasu'r cyfnod absenoldeb hwn gan y bydd y llwyth gwaith apeliadau ardrethu yn ystod 2019/20 yn ysgafn dan gytundeb rhwng y Tribiwnlys, Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Llywodraeth Cymru. Cytunwyd ar hyn er mwyn caniatáu i Asiantaeth y Swyddfa Brisio ganolbwyntio ei adnoddau ar yr ymarfer ailbrisio ar gyfer Rhestr Ardrethu 2021.
- 5.2 Parhaodd nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl ar bedwar. Mae dau aelod staff arall wedi bod yn astudio'r Gymraeg gyda chefnogaeth Tribiwnlys Prisio Cymru yn ystod y flwyddyn.
- 5.3 Ar ddiwedd blwyddyn yr adroddiad roedd oedran cyfartalog y staff ychydig dros 47.5 oed, ac roedd yr hyd gwasanaeth cyfartalog yn 19.3 o flynyddoedd. Mae saith aelod o staff dros 50 oed. Os na fydd unrhyw newid yn y staffio, bydd tri aelod arall o'r staff yn cyrraedd 50 oed ymhen dwy flynedd. Byddai hyn yn golygu bod 67% o'r holl staff dros yr oedran hwn. Mae hyn yn cynrychioli risg olyniaeth y bydd y Cyngor Llywodraethu'n mynd i'r afael ag ef ac yn cynnig datrysiad gerbron Llywodraeth Cymru maes o law. Mae'r gwaith a wneir gan Glercod Tribiwnlys yn esoterig ac nid yw'r sgiliau ar gael yn hawdd yn y farchnad agored. Byddai ymgeiswyr a ffefrir yn meddu ar gymhwyster y Sefydliad Refeniw, Ardrethu a Phrisio (IRRV) a/neu radd yn y gyfraith, ond byddai'n ofynnol darparu hyfforddiant arwyddocaol i'r ymgeiswyr hyn, hyd yn oed. Ar sail profiadau hyfforddiant blaenorol, gall y rhai a benodir gymryd hyd at ddwy flynedd i ddod yn llwyr gyfarwydd gyda, ac yn hyfedr yn y gyfraith berthnasol a gweithdrefnau'r tribiwnlys. Bydd angen peth buddsoddi o ran penodi a hyfforddi personél newydd yn ystod y blynyddoedd i ddod.
- 5.4 Nifer cyfartalog y dyddiau absenoldeb salwch fesul pob aelod o staff eleni oedd 5.46 – gan ystyried yr holl absenoldebau tymor hir. Y cyfartaledd ar gyfer yr 80+% canolog y staff (h.y. cael gwared o'r brig a'r gwaelod o'r amrediad llawn), fel sy'n ofynnol gan y Dangosydd Perfformiad Allweddol perthnasol, oedd 2.26 diwrnod (mwy na diwrnod yn is na'r flwyddyn flaenorol).

6 Cyllid

- 6.1 Gwariant y tribiwnlys yn ystod y flwyddyn oedd £1,072,000 (o gyllideb gwerth £1,074,000). Gwariwyd 67% ar gostau staffio (o'i gymharu gyda 73% y llynedd), a 33% ar gostau cynnal gweithredol eraill (yn cynnwys 3.26% ar rannaliad cyntaf i ad-dalu benthyciad a drefnwyd y llynedd i dalu costau ailstrwythuro [dileu swyddi]). Dangosir y cyfrif refeniw yn Atodiad D. Nid oedd unrhyw wariant cyfalaf.
- 6.2 Mae Atodiad Dd yn dangos yr arbedion cynyddol a wnaed gan y tribiwnlys (flwyddyn ar ôl blwyddyn dros y chwe blynedd ddiwethaf). Eleni mae'r tribiwnlys wedi gwneud arbedion o 21% mewn termau arian parod pur o'i gymharu gyda 2013/14. Ni wnaed unrhyw addasiadau ar gyfer chwyddiant cyflogau na chwyddiant cyffredinol Mynegai Prisiau Defnyddwyr (ac eithrio costau tai) dros y cyfnod. Mae'r tabl isod yn dangos y cynnydd mewn costau oherwydd chwyddiant ers 2013/14, ond nad ydynt yn cael eu hystyried yn y ffigur 21%. Petai addasiadau chwyddiant wedi'u cymhwyso i'r ffigur, byddai'r arbedion mewn telerau go iawn yn arwyddocaol uwch.

6.3 Tabl

Y ffigur chwyddiant cyflogau yw'r dyfarniad cyflog i staff Tribiwnlys Prisio Cymru.¹ Y gyfradd Mynegai Prisiau Defnyddwyr yw cyfradd Mynegai Prisiau Defnyddwyr blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Mawrth bob blwyddyn. Mae chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr cyffredinol yn berthnasol i wariant ac eithrio staffio (heb gynnwys rhent swyddfa Casnewydd sydd wedi aros yn unfath dros y cyfnod).

Blwyddyn	Chwyddiant cyflogau	Cyfradd flynyddol Mynegai Prisiau Defnyddwyr	Gwir wariant y gyllideb
2014/15	0%	0%	1,305,000
2015/16	2.2%	0.5%	1,249,000
2016/17	1.0%	2.3%	1,203,000
2017/18	1.0%	2.5%	1,111,000
2018/19	2.0%	1.9%	1,072,000

Mae'r cynnydd yn y costau oherwydd chwyddiant wedi'u hamsugno i gyllideb sy'n lleihau. Ni ddarparwyd unrhyw gyllid ychwanegol ar eu cyfer yn unrhyw un o'r blynyddoedd a ddangosir.

¹ Mae'r dyfarniad cyflog blynyddol wedi'i gysylltu'n gytundebol gyda'r Cytundeb Cyflog Cenedlaethol ar gyfer Staff Llywodraeth Leol.

7 Cynllun pum mlynedd y Tribiwnlys

- 7.1 Eleni oedd ail flwyddyn cynllun arbedion pum mlynedd y Tribiwnlys. Ar ôl cynnwrf Blwyddyn 1, a welodd leihau'r staff fesul 25%, lleihau'r aelodau 29%, symud i restru canolog, strwythur staffio newydd, llai o dribiwnlysoedd gyda llwythi uwch a datblygiad canolbwynt cymorth gweinyddol canolog yng Nghasnewydd, bwriadwyd i Flwyddyn 2 fod yn flwyddyn gydnherthu. Mae'r newidiadau wedi gwreiddio trwy gydol y flwyddyn hon. Dangosir y cynllun ei hun yn Atodiad G.
- 7.2 Cynhaliwyd rhai ymchwiliadau dechreuol tuag at ddiwedd y flwyddyn o ran swyddfeydd amgen addas yn ardal Casnewydd, gyda'r bwriad o ddefnyddio'r cymal torri yn y les ar yr eiddo sy'n bodoli yn y flwyddyn i ddod. Hyd yma mae'n ymddangos bod yr eiddo cyfredol yn darparu gwerth da am arian o ran y rhent, a gyda chyfleusterau parcio arbennig o dda o'i gymharu gyda swyddfeydd amgen. Mae'r lleoliad yn dda ar gyfer cysylltiadau rheilffordd, yn ogystal â'r rhwydwaith ffyrdd. Oni bai y gellir dod o hyd i gystadleuydd go iawn ym misoedd cynnar 2019/20, efallai na ellir cyflawni'r nod o arbed arian trwy adleoli.
- 7.3 Gwnaed cynnydd da iawn o ran datblygu system gyfrifiadurol y Tribiwnlys yn ystod y flwyddyn, gyda'r gwahanu o'r trefniadau rhannu platform gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisió a Thribiwnlys Prisió Lloegr wedi'i gwblhau ychydig o flaen yr amserlen (h.y. ym mis Mawrth, yn hytrach nag yn ystod hanner cyntaf 2019/20 fel y rhagwelwyd yn wreiddiol). Bydd arbedion sylweddol yn deillio o hyn yn ddiweddarach, ynghyd â diwedd y ddarpariaeth rhwydwaith wedi'i rannu pan fydd y cytundeb cyfredol yn dod i ben ym mis Medi 2019. Ar sail blwyddyn lawn (o 2020/21 ymlaen) bydd yr arbedion oddeutu £60,000. Fodd bynnag, bydd angen yr arian hwn i'w roi yn erbyn y chwyddiant cyflogau sy'n debygol o effeithio ar y Tribiwnlys yn dilyn diwedd y cap ar gyflogau sector cyhoeddus.

Datganiadau

**(fel sy'n ofynnol yn Nogfen Fframwaith Tribiwnlys Prisio Cymru –
Llywodraeth Cymru)**

Datganiad Llywodraethu

Llywodraethir Tribiwnlys Prisio Cymru gan ei Gyngor Llywodraethu, sy'n cynnwys:


- Llywydd y Tribiwnlys
- y tri Cynrychiolydd Cenedlaethol
- ac, os y'i penodir, hyd at dri unigolyn a benodir gan Lywodraeth Cymru.

Rhagnodir y Cyngor a'i gyfansoddiad gan Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010 [WSI 2010 Rhif 713 (W69)], fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru (Diwygio) [WSI 2017 Rhif 941 (W 234)].

Mae'n rhaid i'r Llywydd a'r Cynrychiolwyr Cenedlaethol fod yn aelodau'r Tribiwnlys ac fe'u hetholir gan aelodaeth y Tribiwnlys am gyfnod o dair blynedd. Gallant sefyll i gael eu hailethol ar ddiwedd y cyfnod yn y swydd.

Nodir manylion cydgyfrifoldebau'r Cyngor Llywodraethu, a chyfrifoldebau personol unigol y Llywydd, a chyfrifoldebau unigol pob Cynrychiolydd Cenedlaethol a Phenodai Llywodraeth Cymru yn Nogfen Fframwaith Tribiwnlys Prisio Cymru, a lofnodir dan gymeradwyaeth Ysgrifennydd Cyllid a Llywodraeth Leol y Cabinet gan swyddog Llywodraeth Cymru a Phrif Weithredwr y Tribiwnlys. Mae Prif Weithredwr y Tribiwnlys yn llofnodi ar ran y Tribiwnlys ar ôl derbyn cymeradwyaeth gan y Cyngor Llywodraethu.

Mae Cyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys yn cynnal ei swyddogaethau mewn modd sy'n gyson ag Egwyddorion Canolbwyntio ar Ddinasyddion Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys y Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a nodir gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (Pwyllgor Nolan).




Andrew Shipsides
Prif Weithredwr Tribiwnlys Prisio Cymru

Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Mae Prif Weithredwr Tribiwnlys Prisio Cymru yn gyfrifol am sicrhau bod adnoddau ariannol y Tribiwnlys yn cael eu rheoli yn unol â'r egwyddorion a'r gofynion rheolaeth ariannol penodol a nodir yn Nogfen Fframwaith Tribiwnlys Prisio Cymru a dogfennau ariannol Llywodraeth a Chynulliad Cymru a memoranda y cyfeirir atynt yn y Ddogfen Fframwaith.

Mae'r Prif Weithredwr yn atebol yn bersonol i'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol dynodedig yn adran Llywodraeth Cymru sy'n noddi'r Tribiwnlys. Yn ei dro mae'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol yn atebol i Lywodraeth a Chynulliad Cymru.

Gall y Prif Weithredwr ddirprwyo gweinyddiaeth o ddydd i ddydd ei gyfrifoldebau i gyflogeion y Tribiwnlys, ond mae'n parhau'n gyfrifol ac yn atebol yn bersonol amdanynt.



Andrew Shipsides
Prif Weithredwr Tribiwnlys Prisio Cymru

Atodiadau

- A Niferoedd y cyfarfodydd tribiwnlys a'r achosion a restrwyd**
- B Llwyth gwaith – ffigurau cymharol y pum mlynedd ddiwethaf**
- C Data Clirio Apeliadau 2018/2019**
- Ch Dadansoddiad oedran a rhywedd yr aelodaeth (ar 31 Mawrth 2019)**
- D Gwariant Tribiwnlys Prasio Cymru 2018/2019**
- Dd Cyfanswm gwariant – ffigurau cymharol y chwe blynedd ddiwethaf**
- E Dangosyddion Perfformiad Allweddol – tabl canlyniadau**
- F Strwythur y Sefydliad**
- G Cynnydd yn erbyn cynllun pum mlynedd Tribiwnlys Prasio Cymru**

Nifer y cyfarfodydd tribiwnlys a'r achosion a restrwyd (ynghyd â chyfartaledd yr aelodau Tribiwnlys a thîm Clerc Tribiwnlys):
Atodiad A

Nifer y cyfarfodydd tribiwnlys		Nifer yr aelodau yn nhîm Clerc Tribiwnlys = 8		
Ebrill	15			
Mai	13	28 hyd at ddiwedd Mai	3.50 y clerc	1.75 y clerc y mis
Mehafin	16			
Gorffennaf	15	59 hyd at ddiwedd Gorffennaf	7.38 y clerc	1.84 y clerc y mis
Awst	12			
Medi	14	85 hyd at ddiwedd Medi	10.63 y clerc	1.77 y clerc y mis
Hydref	15			
Tachwedd	20	120 hyd at ddiwedd Tachwedd	15.00 y clerc	1.88 y clerc y mis
Rhagfyr	16			
Ionawr	16	152 hyd at ddiwedd Ionawr	19.00 y clerc	1.90 y clerc y mis
Chwefror	16			
Mawrth	13	181 hyd at ddiwedd Ionawr	22.63 y clerc	1.89 y clerc y mis
CYFANSWM	181			

Achosion a restrwyd

	Ardrethi Annomestig 2010	Ardrethi Annomestig 2017	Prisio'r Dreth Gyngor	Atebolrwydd y Dreth Gyngor	Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	Hysbysiad Cwblhau	Adolygu penderfyniad	CYFANSWM	Nifer cyfartalog y clerc
Ebrill	548	6	103	2	2	0	0	661	82.63
Mai	366	1	65	4	4	0	1	440	55.00
Mehafin	507	38	79	4	3	0	4	631	78.88
Gorffennaf	123	32	91	6	0	0	1	252	31.50
Awst	315	0	30	7	2	1	3	355	44.38
Medi	13	32	113	6	1	1	2	166	20.75
Hydref	213	72	83	3	3	0	1	374	46.75
Tachwedd	26	552	28	38	3	0	1	647	80.88
Rhagfyr	76	561	93	0	0	0	0	730	91.25
Ionawr	66	663	154	2	2	0	4	887	110.88
Chwefror	171	602	182	0	0	0	1	955	119.38
Mawrth	213	620	0	0	0	0	3	833	104.13
CYFANSWM	2637	3179	1021	72	20	2	21	6931	866.38

Llwyth gwaith – ffigurau cymharol y pum mlynedd ddiwethaf: Atodiad B

		Prisio Ardrethu Annomestig		Prisio'r Dreth Gyngor		Pob apêl arall	
2014-15							
Mewnbyn	Dygwyd ymlaen	4568		695		45	
	Derbyniwyd	4198		1700		97	
Cliriwyd	Datryswyd gan y partion	5232	85%	1398	77%	22	22%
	Penderfynwyd gan y tribiwnlys	939	15%	416	23%	78	78%
2015-16							
Mewnbyn	Dygwyd ymlaen	2595		581		42	
	Derbyniwyd	8719		1796		104	
Cliriwyd	Datryswyd gan y partion	1719	89%	1552	83%	59	55%
	Penderfynwyd gan y tribiwnlys	204	11%	312	17%	49	45%
2016-17							
Mewnbyn	Dygwyd ymlaen	9391		513		38	
	Derbyniwyd	3069		1695		85	
Cliriwyd	Datryswyd gan y partion	3323	92%	1282	80%	38	49%
	Penderfynwyd gan y tribiwnlys	277	8%	322	20%	40	51%
2017-18							
Mewnbyn	Dygwyd ymlaen	8860		604		45	
	Derbyniwyd	7061		1338		120	
Cliriwyd	Datryswyd gan y partion	6516	83%	1126	78%	34	31%
	Penderfynwyd gan y tribiwnlys	1291	17%	317	22%	77	69%
2018-19							
Mewnbyn	Dygwyd ymlaen	8114		499		54	
	Derbyniwyd	6369		1138		95	
Cliriwyd	Datryswyd gan y partion	4093	80%	824	63%	22	28%
	Penderfynwyd gan y tribiwnlys	1034	20%	476	37%	58	73%
Dygwyd ymlaen		9356		337		69	

Ystadegau Apêl / Appeal statistics

01/04/18 - 31/03/19

Treth Gyngor / Council Tax	D/Y	Derbyniwyd	Datryswyd	Penderfynwyd	C/Y
	B/F	Received	Settled	Decided	C/F
Prisio / Valuation	488	1128	818	466	332
Hysbysiad Annilyys / Invalidity Notice	11	10	6	10	5
Hysbysiad Cosb / Penalty Notice	1	1	1	1	0
Hysbysiad Cwblhad / Completion Notice	0	1	0	0	1
Atebolrwydd / Liability	17	61	5	44	29
Gostyngiad / Reduction	35	32	16	13	38
Adolygiad o benderfyniad / Decision reviews	0	10	0	10	0
Cyfanswm / Totals	552	1243	846	544	405

Ardrethu Annomestig / Non-domestic Rating	D/Y	Derbyniwyd	Datryswyd	Penderfynwyd	C/Y
	B/F	Received	Settled	Decided	C/F
Prisio / Valuation 2017	3350	6018	2220	668	6480
Prisio / Valuation 2010	4667	216	1809	356	2718
Prisio / Valuation 2005	52	0	26	0	26
Hysbysiad Annilyys / Invalidity Notice (2017)	0	129	24	0	105
Hysbysiad Annilyys / Invalidity Notice (2010)	45	6	14	10	27
Hysbysiad Cosb / Penalty Notice	1	0	1	0	0
Hysbysiad Cwblhad / Completion Notice	0	1	0	0	1
Adolygiad o benderfyniad / Decision reviews	0	12	0	12	0
Cyfansymiau / Totals	8115	6382	4094	1046	9357

Prif gyfanswm / Grand totals	8667	7625	4940	1590	9762
-------------------------------------	------	------	------	------	------

Dadansoddiad oedran a rhywedd yr aelodaeth (ar 31 Mawrth 2019)

Oedran	Dan 30		30 -39		40-49		50-59		60-69		70-79		Dros 80		Cyfanswm	
Rhywedd	G	B	G	B	G	B	G	B	G	B	G	B	G	B	G	B
Cyfanswm	0	0	0	0	2	1	8	4	13	8	34	11	12	0	69	24
Canran o gyfanswm yr aelodaeth	0.0%		0.0%		3.2%		12.9%		22.6%		48.4%		12.9%		74.2%	25.8%

Noder

- 1 Mae cyfanswm yr aelodaeth wedi lleihau o 104 y llynedd i 93, yn bennaf trwy aelodau ddim yn cieisio adnewyddu eu haelodaeth ar ddiwedd eu cyfnod yn y swydd.
- 2 Cyfanswm nifer yr aelodau sy'n gwasanaethu fel aelodau awdurdod lleol yw 12. Gwneir trefniadau fel nad yw'r aelodau hyn yn eistedd mewn gwrandawriadau sy'n ymwneud ag ardal eu cyngor.

Gwariant Tribiwnlys Prasio Cymru 2018-2019 (£oedd)

Atodiad D

Valuation Tribunal for Wales Expenditure 2018-2019 (£s)

Maes gwariant Area of expenditure	2018/19		2017/18	
	Swm / Amount	Canran / Percentage	Swm / Amount	Canran / Percentage
Costau staff (ac eithrio pensiynau) Staff costs (excluding pensions)	582,614	54.33%	648,133	58.29%
Costau pensiynau / Pension costs	133,340	12.43%	155,756	14.01%
Is-gyfanswm / Subtotal	715,954	66.76%	803,889	72.30%
Costau swyddfeydd / Office accommodation	123,793	11.54%	87,201	7.84%
Gwariant ar gyfrifaduron / Computing	105,966	9.88%	132,967	11.97%
Gweinyddiaeth ganolog / Central administration	36,944	3.45%	47,911	4.31%
Tribiwnlysoedd / Tribunals	29,096	2.71%	23,960	2.15%
Llywodraethu / Governance	1,346	0.13%	7,808	0.70%
Hyfforddiant aelodau / Membership training	12,366	1.15%	5,592	0.50%
Hyfforddiant staff / Staff training	11,860	1.11%	2,528	0.23%
Ad-daliad benthyciad / Loan repayment	35,000	3.26%	0	0.00%
Is-gyfanswm / Subtotal	356,371	33.23%	307,967	27.70%
Cyfanswm / Total	1,072,325		1,111,856	

Nodyn: Gwnaeth benthyciad o £175,000 o raglen *Buddsoddi i Arbed* Llywodraeth Cymru gyllido cynllun dileu swyddi'n wirfoddol yn 2017/18. Mae'r benthyciad yn un di-log ac yn ad-daladwy dros bum mlynedd (ar £35,000 y flwyddyn). Gwnaed y taliad cyntaf eleni.

Note: A loan of £175,000 from Welsh Government's *Invest to Save* programme financed a voluntary redundancy scheme in 2017/18. The loan is interest free and repayable over five years (at £35,000 per year). The first payment was made this year.

Cyfanswm gwariant – ffigurau cymharol y chwe blynedd ddiwethaf

Total expenditure – last six years' comparable figures

Blwyddyn ariannol	Cyfanswm gwariant blynyddol (£)	Canran arbedion o'i gymharu gyda 2013/14	Costau staffio blynyddol (£)	Canran y cynnydd neu lleihad ar y flwyddyn flaenorol	Costau cynnal ac eithrio staffio (£)	Canran y cynnydd neu lleihad ar y flwyddyn flaenorol
Financial year	Total annual spend (£)	Percentage saving compared to 2013/14	Annual staff costs (£)	Percentage increase or decrease on previous year	Non-staffing running costs (£)	Percentage increase or decrease on previous year
2013-14	1,358,330		811,711		546,619	
2014-15	1,305,586	3.88%	826,208	+1.79%	479,378	-12.30%
2015-16	1,249,787	7.99%	839,169	+1.57%	410,618	-14.34%
2016-17	1,203,584	11.39%	843,787	+0.55%	359,796	-12.38%
2017-18	1,111,856	18.15%	803,889	-4.73%	307,967	-14.41%
2018-19	1,072,325	21.06%	715,954	-10.94%	356,371	+15.72%

Nodiadau

Mae arbedion staffio sylweddol, o ganlyniad i'r cynllun dileu swyddi'n wirfoddol wedi caniatáu i gyllid yr oedd ei ddirfawr angen ddychwelyd at gostau cynnal ac eithrio staffio. Roedd y costau hyn wedi bod dan bwysau difrifol yn ystod y blynyddoedd cynni blaenorol. Codwyd y moratoriwm ar wariant hyfforddiant eleni, ac adnewyddwyd y dodrefn yng Nghasnewydd – rhywbeth yr oedd dirfawr angen ei wneud.

Notes


Substantial savings on staffing, as a result of the voluntary severance scheme, have allowed much needed funds to return to non-staffing running costs. These costs had been severely squeezed in the previous Austerity years. The moratorium on Training expenditure was lifted this year, and a much needed furniture-refresh in Newport was implemented.

Dangosyddion Perfformiad Allweddol --- tabl canlyniadau


Mesur perfformiad	Targed 2018/19	Canlyniad 2018/19	Targed 2019/20	Rheswm am unrhyw newid i'r targed / neu ragor o fanylion/gwybodaeth
Cyflwyno hysbysiadau gwrandawriad ardrethu annomestig i bartïon cyn pen 8 wythnos o ddyddiad targed rhaglennu Asiantaeth y Swyddfa Brisió	90%	86.9%	90%	5053 o'r 5816 a restrwyd Gwnaeth cynnydd mewn gohiriadau arwain at ailrestru arwyddocaol. Mae ailrestru yn chwyddi'r ffigur cyfanswm a ddefnyddir i gyfrifo'r cyfartaledd.
Apeliadau'r Dreth Gyngor (prisió ac atebolrwydd) i'w clirio cyn pen 12 mis o'u cyflwyno i'r tribiwnlys	95%	98.1%	95%	24 achos Prisió'r Dreth Gyngor > 12 mis oed Dim Atebolrwydd y Dreth gyngor a 7 Gostyngiadau'r Dreth Gyngor > 12 mis oed (out of 1616 cases available for listing in the period)
Cyflwyno rhesymau ysgrifenedig am y penderfyniad cyn pen 28 diwrnod o ddiwedd y gwrandawriad	95%	96.4%	95%	56 wedi'u cyflwyno ar ôl 28 diwrnod (o 1568 o benderfyniadau)
Cesiadau adolygu penderfyniad Ardrethu Annomestig fel canran yr achosion Ardrethu Annomestig a benderfynwyd	< 0.5%	0.1%	< 0.5%	12 cais o 1034 o benderfyniadau
Ceisiadau adolygu penderfyniad Prisió'r Dreth Gyngor fel canran yr achosion Prisió'r Dreth Gyngor a benderfynwyd	<2.0%	1.6%	< 2.0%	8 cais o 477 o benderfyniadau
Ceisiadau adolygu penderfyniad Atebolrwydd Treth Gyngor fel canran yr achosion Atebolrwydd Treth Gyngor a benderfynwyd	< 5.0%	3.5%	< 5.0%	2 gais o 57 o benderfyniadau
Penderfyniadau a gyfeiriwyd i'r uwch lysoedd	< 0.5%	< 0.1%	< 0.5%	1 (o 1568 o benderfyniadau)
Penderfyniad lle cafwyd cwyn gan un o'r partïon	< 1.0%	0.2%	< 1.0%	3 (o1568 o benderfyniadau)
Nifer yr honiadau ar sail rhesymol a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn erbyn y tribiwnlys	sero	sero	sero	
Nifer yr honiadau ar sail rhesymol a gyflwynwyd ynghylch cydymffurfio â'r Safonau Iaith yn erbyn y tribiwnlys	sero	sero	sero	
Y ffigur cyfartalog blynyddol fesul cyflogai o ran absenoldeb salwch i beidio â goresgyn 5 diwrnod gwaith ar gyfer 80% anolog y dosbarthiad staff llawn	< 5 diwrnod	2.26	< 5 diwrnod	

Strwythur y sefydliad


Strwythur Cyffredinol



Cyfansoddiad y Cyngor Llywodraethu



Strwythur Staffio



Cynnydd yn erbyn cynllun pum mlynedd Tribiwnlys Prisio Cymru

Nodyn

- Mae'r cynllun yn parhau ar y targed.

2017/18	<p>Ailfodelu'r strwythur staffio cyffredinol (dileu swyddi)</p> <p>Lleihau'r aelodaeth (mor agos i 90 ag y bo modd)</p> <p>Cynyddu effeithlonrwydd y rhaglen restru (llai o gyfarfodydd / rhestrau hirach)</p> <p>Lleihau nifer y lleoliadau allanol a ddefnyddir / cynyddu defnydd canolfan wrandawiadau Casnewydd</p> <p>Adleoli'r tîm yn Abertawe i swyddfeydd llai yn adeilad Penllergaer</p>
2018/19	<p>Gwreiddio diwygiadau Blwyddyn 1</p> <p>Parhau i leihau'r aelodaeth</p>
2019/20	<p>Gadael y trefniadau rhannu system Technoleg Gwybodaeth gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio a'r Gwasanaeth Tribiwnlys / sefydlu annibyniaeth lawn i Dribiwnlys Prisio Cymru o ran yr holl drefniadau Technoleg Gwybodaeth</p> <p>Adleoli swyddfa Casnewydd i leoliad mwy cost effeithiol, gan ddefnyddio'r cyfle a gyflwynir gan y cymal torri'r cytundeb sy'n bodoli eisoes</p> <p>Sefydlu trefn gweithio o adref i staff Abertawe ar ddiwedd y cytundeb Memorandwm Telerau Meddiannu os yw Penllergaer yn cau (neu os nad yw Penllergaer yn cau a bod gweithio o adref yn fwy cost effeithiol)</p>
2020/21	<p>Dim newidiadau strwythurol na chyfleoedd i newid</p>
2021/22	<p>Defnyddio ymddeoliad(au) allweddol i leihau'r tîm rheoli gweithredol o dri i ddau. (Opsiwn dim costau dileu swydd)</p>